

## Taflen Ffeithiau 5 – Cadw'n Ddiogel

Gwyddwn fod Taliadau Uniongyrchol yn gallu eich helpu i reoli eich trefniadau gofal. Gwyddwn hefyd fod y gallu i reoli ein bywydau yn cynyddu ein gwytnwch yn erbyn yr ofn o gamdriniaeth ac esgeulustod. Mae'n rhaid i bawb sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol wybod fod Sir y Fflint yn barod i wrando ar unrhyw bryderon neu boenau yn ymwneud â chadw'n ddiogel.

### **Dyletswydd gofal**

Mae gan gymorthyddion personol ddyletswydd gofal. Mae'n bosibl y bydd arnynt angen siarad â rhywun os ydynt yn bryderus am eich diogelwch. Dylent dderbyn caniatâd gennych chi i wneud hyn fel arfer, ond weithiau, mae'n rhaid i gyfrinachedd ddod yn ail os ydych chi neu rywun arall mewn perygl o niwed gan aelod o deulu neu gymhorthydd personol arall (er enghraifft). Mae'n rhaid sicrhau dealltwriaeth dda rhwng y cymhorthydd personol a chithau fel y cyflogwr yn y maes hwn cyn i unrhyw beth ddigwydd. Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cefnogi eich cymorthyddion personol i fynychu hyfforddiant 'Diogelu' perthnasol.

Efallai y byddwch yn ystyried cyflogi eich cymhorthydd personol eich hun. Mae'n bwysig eich bod yn cymryd camau penodol i sicrhau nad ydych chi mewn perygl o niwed.

Rydym ni'n credu y byddai'n well i chi dderbyn cymorth a chyngor os ydych chi'n penderfynu cael staff eich hun. Mae'r gefnogaeth hon am ddim i chi. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol a fydd yn gallu eich helpu drwy gynnig y cyngor sydd ei angen arnoch yn ystod bob cam o gyflogi eich staff.

Os ydych yn dewis defnyddio asiantaeth gofal, mae'r gyfraith yn nodi bod yn rhaid cofrestru asiantaethau gofal naill ai gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, neu Gomisiwn Ansawdd Gofal Lloegr.

**Cofiwch – gofynnwch am help os ydych chi'n credu bod arnoch ei angen.**

**Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol**

**Rhif ffôn:** 01352 701100

**E-bost:** [dp.support@flintshire.gov.uk](mailto:dp.support@flintshire.gov.uk)